# PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## PWYLLGOR CRAFFU - MATERION YR HINSAWDD, GWASANAETHAU RHENG FLAEN A FFYNIANT

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant canlynol yn bresennol

Y Cynghorydd C Middle (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G L Warren
Y Cynghorydd P Binning
Y Cynghorydd V Dunn
Y Cynghorydd E L Dunning
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd W Hughes
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd P Evans
Y Cynghorydd G O Jones

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mrs S Handy, Swyddog Craffu ac Ymchwil I Aelodau
Ms J Nicholls, Prif Swyddog Craffu

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol yn bresennol

Y Cynghorydd A Crimmings, Aelod o'r Cabinet a'r faterion Amgylchedd a Hamdden
Y Cynghorydd M Norris, Aelod o'r Cabinet a'r faterion Datblygu a Ffyniant
Y Cynghorydd C Leyshon, Aelod o'r Cabinet a'r faterion Hinsawdd a Corfforaethol

### Ymddiheuriadu am absenoldeb

Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd R Yeo

**1 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24.

**2 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Barton a R Yeo.

**3 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**4 Cofnodion**

Cafodd cofnodion o'r cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 22 Mawrth 2023 eu cadarnhau'n rhai cywir.

**5 Ymchwil a Chraffu**

Cyfeiriodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau at y cyfleusterau ymchwil sydd ar gael i Aelodau yn rhan o Uned Busnes y Cyngor. Cafodd Aelodau wybod bod modd anfon unrhyw ymholiadau penodol drwy e-bost: Craffu@rctcbc.gov.uk.

**6 Ymgynghoriadau**

Cyfeiriodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau at yr ymgynghoriadau sydd ar gael ar wefan 'Craffu RhCT'. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod gwybodaeth mewn perthynas â'r ymgynghoriadau y mae angen i'r Pwyllgor eu trafod yn cael ei rhannu ag Aelodau. Caiff yr ymgynghoriadau yma eu rhannu'n fisol, a'u diweddaru bob pythefnos.

**7 Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant 2023-24**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau'r Rhaglen Waith ar gyfer 2023-24 i Aelodau, gan geisio cymeradwyaeth yr Aelodau mewn perthynas â'r rhaglen waith a gwahodd unrhyw awgrymiadau gan Aelodau.

Yn dilyn hyn, cafodd y Pwyllgor drafodaeth ynglŷn â'r mater.

Holodd Aelod a oedd modd cynnwys torri gwair yn rhan o'r eitem ar Goed a Gwrychoedd. Holodd Aelod arall a oedd modd cyfeirio at weiren bigog a'r ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn â'r mater yma yn rhan o'r adroddiad ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cadarnhaodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau y bydd yr eitemau yma'n cael eu rhannu â'r Swyddogion perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer 2023-24.

**8 Materion Brys**

Doedd dim materion brys i'w trafod.

**9 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Aelodau am ddod i'r cyfarfod, gan nodi y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Bydd modd i'r Pwyllgor ddechrau defnyddio'r Rhaglen Waith yn ystod y cyfarfod yma.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.08 pm**

**Y Cynghorydd C Middle**
**Cadeirydd.**